



Cyflwyno rhaglen Addysg Gychwynnol Athrawon i CGA i'w hachredu

1 Cyflwyniad a chefnidir statudol

Sefydlwyd Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA) gan *Ddeddf Addysg (Cymru) 2014*.

O dan *Orchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Achredu Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon) (Swyddogaethau Ychwanegol) (Cymru) 2017*, fel y'i ddiwygiwyd, mae cyfrifoldeb statudol ar CGA i:

- achredu rhaglenni Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA);
- monitro cydymffurfiaeth rhaglenni achrededig yn erbyn meini prawf achredu Llywodraeth Cymru;
- diddymu achrediad rhaglenni os yw'n barnu ei bod yn briodol gwneud hynny;
- codi ffioedd ar gyfer darparu'r gwasanaeth; a, thra'n gweithredu'r swyddogaethau hyn
- rhoi sylw i unrhyw ragolwg o'r galw am athrawon newydd gymhwyso yr hysbysir y Cyngor amdano yn ysgrifenedig gan Weinidogion Cymru

Wrth wneud hynny, mae CGA yn ceisio sicrhau bod rhaglenni AGA yn broffesiynol briodol, yn heriol, ac yn galluogi athrawon dan hyfforddiant i gyrraedd safonau Statws Athro Cymwysedig yng Nghymru (SAC).

Rhaid i unrhyw bartneriaeth (yr ymgeisydd) sy'n dymuno darparu rhaglen AGA sy'n arwain at Statws Athro Cymwysedig (SAC) yng Nghymru o fis Medi 2019 ymlaen, sicrhau yn gyntaf ei bod wedi cael ei hachredu gan CGA, trwy ei **Fwrdd Achredu Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) (Y Bwrdd)**.

2 Diben y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yw nodi:

- y gweithdrefnau a'r amserlenni y dylai partneriaeth eu dilyn wrth gyflwyno rhaglen i gael achrediad proffesiynol; a'r
- broses y bydd CGA yn ei dilyn wrth benderfynu a ddylid achredu rhaglen ai peidio, a sut / pryd yr hysbysir partneriaethau am y penderfyniad.

Mae'n berthnasol i'r holl raglenni AGA a fydd yn cael eu cynnal yng Nghymru a rhaid i gyflwyniadau rhaglenni gael eu rhoi i CGA yn unol â'r amserlen yn adran 4.

Dylid defnyddio'r ddogfen hon ar y cyd â'r canlynol:

- meini prawf Llywodraeth Cymru ar gyfer achredu rhaglenni Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys y safonau ar gyfer Statws Athro Cymwysedig (SAC);
- y ffurflen ar gyfer cyflwyno rhaglenni i'w hachredu i CGA yng Nghymru;
- *Rheoliadau'r Gweithlu Addysg (Achredu Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon) 2017*;

Mae'r dogfennau hyn, a gwybodaeth gysylltiedig arall, ar gael yn www.cga.cymru/AchreduAGA.

3 Y broses o achredu rhaglen

Yn ôl diffiniad CGA, mae achredu yn broses o ganfod derbynoldeb proffesiynol rhaglen AGA sy'n arwain at gymhwyster addysgu. Bydd achrediad yn cael ei ddyfarnu i raglenni, nid partneriaethau, ac felly, **rhaid i'r broses achredu ddigwydd fesul rhaglen.**

Gall unrhyw raglen a achredir gan CGA gael ei darparu am gyfnod o hyd at 5 mlynedd. Ar ôl 5 mlynedd, rhaid i'r rhaglen honno gael ei hailgyflwyno i CGA i'w hachredu. Yn ystod y cyfnod o 5 mlynedd, bydd y rhaglen yn destun gwerthuso ac arolygu interim, a fydd yn cynnig y cyfle i'r bartneriaeth dynnu sylw at unrhyw ddatblygiadau / welliannau a wnaed i'r rhaglen, ac i CGA gynnig cyfarwyddyd / arweiniad i'r bartneriaeth. (Gweler adrannau 9 a 10 i gael rhagor o fanylion am y broses gwerthuso / arolygu interim).

Tasg y Pwyllgor yw penderfynu a yw **rhaglen AGA arfaethedig yn gwireddu gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer AGA, fel y'i nodir yn adran A o'r Meini Prawf ar gyfer achredu rhaglenni Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) yng Nghymru (y Meini Prawf) ac yn rhoi sylw i bob mater y cyfeirir ato yn adran B o'r ddogfen Meini Prawf.** Wrth wneud hynny, bydd y Pwyllgor yn ceisio sicrhau bod unrhyw raglen yn heriol ac yn broffesiynol briodol, a bod hygrededd iddi.

Mae CGA yn cadw'r hawl i ailystyried rhaglen ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod o 5 mlynedd.

Bydd y broses achredu yn cynnwys nifer o gamau:

Datganiad o fwriad

Bydd partneriaethau'n cael eu gwahodd i gyflwyno dogfen 'datganiad o fwriad' i'r Bwrdd cyn y cyflwyniad llawn a ffurfiol ar gyfer achrediad. Er na fydd hyn yn orfodol, bydd yn dangos eu diddordeb mewn datblygu a chyflwyno rhaglen i'w hachredu. Bydd unrhyw bartneriaeth sy'n cyflwyno datganiad yn gallu ei drafod ag aelod/au o'r Bwrdd Achredu AGA.

Cymeradwyo / dilysu gan Brifysgol

Rhaid i'r bartneriaeth sicrhau bod y rhaglen wedi cael ei dilysu'n academiaidd **cyn** iddi gael ei chyflwyno i CGA i gael achrediad proffesiynol. Bydd hyn yn rhoi i CGA y sicrwydd priodol bod y rhaglen yn cyrraedd safonau angenrheidiol y brifysgol sy'n dilysu.

Achredu

Dyma le mae CGA yn penderfynu a all y rhaglen sicrhau bod athro dan hyfforddiant sy'n cwblhau'r rhaglen yn cyrraedd y safonau SAC, ac yn addas i gael ei gofrestru gyda CGA fel athro ysgol. Nod CGA yw canfod a yw rhaglen yn cynnig paratoad proffesiynol perthnasol ar gyfer addysgu. Bydd yr achrediad yn canolbwyntio ar y prif agweddau proffesiynol ar y rhaglen, ac ar ddealltwriaeth a dirnadaethau'r staff sy'n ymwneud â'r gwaith o'i darparu.

Wrth adolygu ac achredu rhaglenni, mae CGA wedi ymrwymo i'r egwyddorion cyffredinol canlynol:

- parch ac ymddiriedaeth rhwng CGA a phartneriaethau fel sail i feithrin perthnasoedd proffesiynol cadarnhaol rhyngddynt;
- cydweithredu â phartneriaethau yn y broses achredu, wedi'i lywio gan dystiolaeth fel ffordd o sicrhau safonau uchel AGA yng Nghymru;
- cydnabod yr amrywiaeth o gyd-destunau mae rhaglenni'n cael eu darparu ynddynt;
- pwysigrwydd y Gymraeg a sicrhau bod y trefniadau achredu yn gweithredu'n ddwyieithog;
- cysondeb, tryloywder a thegwch trwy'r broses achredu;
- cyfrinachedd yr holl wybodaeth a roddir i CGA;
- cyfleu deilliannau a phenderfyniadau'n glir i'r bartneriaeth a'r cyhoedd yn ehangach.

Efallai bydd partneriaethau yn dymuno trafod eu cynigion ar gyfer achredu rhaglen AGA yn anffurfiol gyda CGA ar unrhyw un o'r camau uchod. Bydd swyddogion CGA (nad ydynt yn rhan o'r broses gwneud penderfyniadau) yn gallu rhoi cyngor diduedd i bartneriaethau ar y broses achredu.

4 Y cylch achredu, amserlenni a threfniadau pontio

Ni chaniateir i unrhyw raglenni AGA yng Nghymru gael eu darparu o fis Medi 2019 ymlaen heb gymeradwyaeth gan CGA. Bydd yr amserlenni canlynol yn berthnasol:

Cam gweithredu	Dyddiad
Y bartneriaeth i gyflwyno rhaglen i'r Cyngor i'w hachredu yn erbyn y meini prawf achredu	Erbyn 31 Mawrth 2020
CGA i asesu rhaglenni	Erbyn 30 Mehefin 2020
CGA i hysbysu'r partneriaethau am ei benderfyniad	Erbyn 31 Gorffennaf 2020
CGA i gadarnhau'r niferoedd a ariennir ar gyfer rhaglen ar gyfer 2021-22	Rhagfyr 2020
Y bartneriaeth i ddechrau darparu'r rhaglenni newydd	O 1 Medi 2021

Bydd rhaglenni newydd a gynigir y tu allan i'r cylch 5 mlynedd yn cael eu hachredu ar wahân, a bydd CGA yn cyhoeddi cyfarwyddyd i bartneriaethau ar y broses o wneud cais am achrediad o'r fath yn 2019.

5 Sut i gyflwyno rhaglen i'w hachredu

Rhaid i bartneriaethau gyflwyno rhaglenni i CGA yn electronig, gan ddefnyddio'r ddogfen Ffurflen i gyflwyno rhaglenni AGA i gael achrediad proffesiynol erbyn 31 Mawrth 2020. Mae'r ddogfen hon ar gael yma. Ni fydd CGA yn derbyn cyflwyniadau mewn unrhyw fformat arall nac ar ôl y dyddiad hwn. Rhaid cwblhau'r ffurflen mewn

ffont Calibri maint 11 gyda gofod 1.15 rhwng y llinellau. Dylech gyflwyno'r ddogfen trwy e-bost gan ddefnyddio'r manylion cyswllt yn adran 11.

Rhaid i ffurflen ar wahân gael ei chyflwyno ar gyfer pob rhaglen y mae'r bartneriaeth yn gwneud cais am achrediad iddi. NID oes angen cyflwyniad ar wahân ar gyfer llwybrau arbenigedd pwnc o fewn pob rhaglen. Dylai nifer y lleoedd y disgwylir iddynt gael eu darparu ar gyfer pob cam / pwnc gael ei chyflwyno yn yr adran 'Tudalen Grynodedb o'r Rhaglen' gan ddefnyddio tablau tebyg i'r rhai isod a ddarperir at ddibenion enghreifftiol yn unig:

Enghraifft 1:

Teitl y rhaglen (Hyd):	Tystysgrif Addysg i Raddedigion (Blwyddyn)	
Lefel a Chredydau:	Cyfanswm – 120 credyd Lefel 6 60 credyd Lefel 7 60 Credyd	
Cyfnod ac Ystod Oedran:	Cynradd 3-11	
Cyfanswm nifer y lleoedd y gofynnir amdanynt pob blwyddyn:	O'r rhain, nifer y lleoedd cyfrwng Cymraeg	
100	30	
Llwybr Arbenigedd Pwnc (Os yw'n gymwys)	Lleoedd y gofynnir amdanynt	O'r rhain, lleoedd cyfrwng Cymraeg
Amh	Amh	Amh

Enghraifft 2:

Teitl y rhaglen (Hyd):	Tystysgrif Addysg i Raddedigion (Blwyddyn)	
Lefel a Chredydau:	Cyfanswm – 120 credyd Lefel 6 60 credyd Lefel 7 60 Credyd	
Cyfnod ac Ystod Oedran:	Uwchradd 11-18	
Cyfanswm nifer y lleoedd y gofynnir amdanynt pob blwyddyn:	O'r rhain, nifer y lleoedd cyfrwng Cymraeg	
140	31	
Llwybr Arbenigedd Pwnc (Os yw'n gymwys)	Lleoedd y gofynnir amdanynt	O'r rhain, lleoedd cyfrwng Cymraeg
Celf a Dylunio	20	3
Addysg Gorfforol	20	3
Saesneg	25	3
Mathemateg	30	3
Cymraeg	15	15
Cyfrifiadureg	15	2
Daearyddiaeth	15	2

Rhaid i bartneriaethau gyfeirio at ddogfen Llywodraeth Cymru, 'Meini Prawf ar gyfer achredu rhaglenni Addysg Gychwynnol Athrawon yng Nghymru' wrth lenwi'r ffurflen. Bydd y Pwyllgor yn defnyddio'r Meini Prawf wrth benderfynu a ddylai rhaglen gael ei hachredu ai peidio. Mae'r Meini Prawf i'w dehongli yng ngoleuni'r Weledigaeth ar gyfer AGA yng Nghymru fel y'i nodir yn adran A o'r ddogfen Meini Prawf.

Rhaid i bob rhan o'r ffurflen gael ei llenwi. Dylai partneriaethau geisio bod yn gryno ac osgoi cyflwyniadau swmpus. Bydd unrhyw gyflwyniadau sy'n fwy na 100 o dudalennau yn cael eu dychwelyd heb eu hasesu.

Dylai'r bartneriaeth benodi unigolyn sydd ag awdurdod digonol, a fydd yn gweithredu fel y person cyswllt arweiniol ar gyfer y cyflwyniad. Dylai fod gan yr unigolyn hwn gyfrifoldeb dynodedig am AGA a / neu sicrhau ansawdd. Bydd CGA yn cyfeirio'r holl ohebiaeth trwy'r unigolyn hwn, ac efallai y bydd yn dymuno gofyn am eglurhad o rai agweddau ar y cyflwyniad.

Ffioedd asesu ar gyfer achredu rhaglenni

Mae rhestr o'r ffioedd sy'n daladwy gan bartneriaethau sy'n cymryd rhan yn y broses achredu ar gael ar wefan CGA www.cga.cymru

6 Bwrdd Achredu AGA CGA (y Bwrdd)

Mae CGA yn dirprwyo cyfrifoldeb am achredu rhaglenni AGA i'w Fwrdd Achredu, sydd â phwerau dirprwyedig i benderfynu a ddylai rhaglen gael ei hachredu ai peidio, ac i fonitro cydymffurfiaeth â'r Meini Prawf.

Mae cronfa'r Bwrdd yn cynnwys Cadeirydd, dau ddirprwy a thua deg aelod arall. Daw aelodau cronfa'r Bwrdd o amrywiaeth o gefndiroedd, gan gynnwys addysg gychwynnol athrawon, Estyn, consortia / awdurdodau lleol / ysgolion, ymarferwyr sydd wedi'u cofrestru â CGA yng nghategori athro ysgol neu sy'n meddu ar arbenigedd arall y mae CGA yn barnu ei fod yn berthnasol.

Bydd unrhyw gyflwyniad rhaglen yn cael ei ystyried gan is-set o aelodau o'r gronfa a elwir y Pwyllgor Achredu Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon (y Pwyllgor). Er mwyn sicrhau cysondeb, bydd pob pwyllgor bob amser yn cynnwys y Cadeirydd neu un dirprwy. Y cworwm, yn Rheoliadau Llywodraeth Cymru, ar gyfer asesiad yw tri aelod.

Mae'n ofynnol i bob aelod ddatgan unrhyw wrthdrawiadau buddiannau cyn ystyried cyflwyniad rhaglen. Bydd unrhyw wrthdrawiadau a nodir gan aelod o'r Bwrdd neu bartneriaeth yn cael eu hystyried gan y swyddog o CGA a awdurdodwyd yn briodol (ar ôl cael cyngor cyfreithiol os oes ei angen), ac efallai y bydd yn ofynnol i'r aelod roi'r gorau i ystyried rhaglen benodol os bydd y swyddog a awdurdodwyd yn briodol o'r farn bod gwrthdaro o'r fath, neu wrthdaro canfyddedig, yn bodoli.

Caiff pob cyfarfod ei wasanaethu gan y swyddog o CGA a awdurdodwyd yn briodol, yn ogystal â staff cynorthwylol a fydd yn cadw golwg ar y broses achredu.

7 Sut y mae CGA yn ystyried cyflwyniad rhaglen ar gyfer achrediad

Bydd yr asesiad achredu yn cynnwys pedwar cam:

- Adolygiad ar bapur o gyflwyniad rhaglen gan y Pwyllgor; ac
- Ymweliad safle â'r bartneriaeth gan y Pwyllgor; a
- Chyfarfod ar wahân i archwilio pob cyflwyniad rhaglen. Fel arfer, bydd hanner diwrnod yn cael ei neilltuo ar gyfer pob un, a byddant yn digwydd mewn lleoliad y mae'r ddwy ochr wedi cytuno arno;
- Y penderfyniad a chadarnhad ysgrifenedig.

Bydd llythyr yn cael ei anfon at y bartneriaeth o leiaf 20 diwrnod gwaith cyn yr ymweliad safle a'r cyfarfod asesu rhaglen. Bydd hwn yn cadarnhau cyfansoddiad y Pwyllgor ar gyfer pob asesiad rhaglen a fformat yr ymweliad safle a'r cyfarfod, a bydd yn awgrymu pwy y gallai'r bartneriaeth ddymuno iddynt fod yn bresennol yn ystod yr ymweliad safle a'r cyfarfod(ydd) rhaglen. Gofynnir i'r bartneriaeth ymateb yn ysgrifenedig i gadarnhau pwy fydd yn bresennol ac i nodi unrhyw wrthdrawiadau canfyddedig mewn perthynas ag aelodau o'r Pwyllgor.

Adolygiad ar bapur

Bydd copïau papur o'r cyflwyniad rhaglen yn cael eu darparu i aelodau'r Pwyllgor o leiaf 10 diwrnod gwaith cyn yr ymweliad safle a'r asesiad. Bydd y Pwyllgor yn adolygu'r dogfennau, yn unigol ac ar y cyd, cyn yr ymweliad safle a'r cyfarfod.

Ymweliad safle â'r bartneriaeth

Disgwylir y gallai partneriaethau gyflwyno nifer o raglenni i'w hachredu. Er mwyn gwneud defnydd effeithlon o amser, dim ond un ymweliad safle fydd yn cael ei gynnal ar gyfer pob partneriaeth (yn hytrach nag un ar gyfer pob rhaglen y mae'r bartneriaeth yn ei darparu) a bydd cyfarfodydd achredu rhaglenni yn cael eu trefnu mor agos ag sy'n bosibl i'r ymweliad safle. Bydd manylion llawn fformat yr ymweliad safle'n cael eu cadarnhau ymlaen llaw. Fel arfer, bydd yr ymweliadau safle'n cael eu cwblhau mewn un diwrnod, ond gall hyn gymryd mwy o amser os bydd partneriaeth wedi cyflwyno mwy o raglenni.

Cyfarfod achredu rhaglen

Bydd CGA yn cynnull cyfarfod ar wahân ar gyfer pob rhaglen a gyflwynwyd, gan mai rhaglenni, yn hytrach na phartneriaethau, a fydd yn cael eu hachredu o 2019 ymlaen.

Bydd y cyfarfodydd yn cael eu cynnal mewn lleoliad y mae'r ddwy ochr wedi cytuno arno. Bydd tîm y bartneriaeth yn rhoi cyflwyniad i'r Pwyllgor, gan nodi'r prif agweddau ar ei rhaglen yn unol â'r ffurflen a'r Meini Prawf. Bydd y Pwyllgor yn gofyn cwestiynau i dîm y bartneriaeth am ei rhaglen, a bydd cyfle i gael trafodaeth. Disgwylir i'r cyfarfodydd bara hanner diwrnod.

Y penderfyniad a'r hysbysiad ysgrifenedig

Bydd y bartneriaeth yn cael ei hysbysu am y penderfyniad trwy lythyr at yr unigolyn dynodedig a nodwyd ar y cyflwyniad rhaglen. Bydd copi o'r llythyr hefyd yn cael ei

anfon at Lywodraeth Cymru. Bydd y rhesymau llawn dros benderfyniad y Pwyllgor yn cael eu nodi yn y llythyr (ar ffurf adroddiad).

Bydd tri chanlyniad posibl:

- achredu'r rhaglen;
- peidio ag achredu'r rhaglen;
- achredu'r rhaglen dan amodau. Bydd y gofynion yn cael eu nodi'n glir ynghyd ag unrhyw amserlenni ar gyfer eu gweithredu cyn y caniateir i'r rhaglen gychwyn;

Bydd hawl i apelio i bartneriaethau yn cael ei nodi yn y penderfyniad ysgrifenedig.

Bydd y niferoedd a ariennir sydd wedi'u cadarnhau'n cael eu rhoi i'r Partneriaethau ym mis Rhagfyr bob blwyddyn.

Bydd yr holl raglenni achrededig yn cael eu rhestru ar wefan CGA.

8 Apeliadau

Bydd gan unrhyw bartneriaethau sy'n anfodlon ar benderfyniad y Pwyllgor yr hawl i apelio cyn pen 15 diwrnod gwaith ar ôl cael yr hysbysiad ysgrifenedig o benderfyniad y Pwyllgor. Bydd angen i apeliadau gael eu gwneud yn ysgrifenedig, gan nodi'r sail dros yr apêl ac unrhyw dystiolaeth ddogfennol angenrheidiol. Bydd rhagor o fanylion ynghylch y broses apelio'n cael eu nodi yn y llythyr penderfyniad.

Bydd pwyllgor a gynullir o'r newydd (na fydd yn cynnwys yr un aelod a fu'n rhan o'r penderfyniad cychwynnol) yn ystyried yr apêl. Bydd y Pwyllgor Apeliadau'n cyfarfod yn breifat i ystyried unrhyw apêl, a bydd y bartneriaeth yn cael ei hysbysu yn ysgrifenedig am ganlyniad yr apêl cyn pen 15 diwrnod gwaith.

9 Newidiadau mawr i raglen

Mae achrediad yn cael ei roi ar y sail y bydd y rhaglen yn cael ei weithredu, ac y bydd yn cael ei weithredu fel y dangosir yn y ddogfennaeth a gyflwynwyd ar gyfer achredu. Os bydd partneriaeth yn dymuno gwneud newidiadau sylweddol i raglan achrededig, mae'n rhaid iddi hysbysu CGA yn ysgrifenedig **cyn** gwneud y newidiadau hyn.

Os bydd partneriaeth yn ansicr pa un ai a fydd ei newid(iadau) arfaethedig yn cynnwys newid 'mawr', gall drafod hyn yn anffurfiol â CGA cyn cyflwyno unrhyw hysbysiad ffurfiol. Bydd swyddogion CGA (nad ydynt yn rhan o'r broses gwneud penderfyniadau) yn gallu darparu cyngor diduedd i bartneriaethau ar unrhyw gam o'r broses.

Beth yw newid mawr?

Newid mawr yw newid sy'n cael effaith ar:

- i) Ansawdd y rhaglen;
- ii) Cyflwyniad y rhaglen;
- iii) Y fordd mae'r rhaglen yn bodloni *Meini Prawf Llywodraeth Cymru ar gyfer achredu rhaglenni addysg gychwynol athrawon yng Nghymru*.

Mae enghreifftiau o newid mawr yn cynnwys, ond nid yn gyfyngedig i'r mathau o newidiadau canlynol:

- Cyfansoddiad neu reolaeth y Bartneriaeth (ee newid i ysgolion partner arweiniol);
- teitl y rhaglen;
- lefel y rhaglen;
- trefniadau dilysu;
- hyd y rhaglen neu ei dull cyflwyno;
- staffio, addysgu neu bersonél goruchwyllo;
- asesu;
- gofynion derbyn myfyrwyr.

Sut i hysbysu CGA am newid mawr

Os bydd partneriaeth yn dymuno gwneud newid arwyddocaol i raglen achrededig, **rhaid** iddi hysbysu CGA gan ddefnyddio'r ffurflen *Hysbysu am newidiadau mawr i raglen AGA achrededig*. Mae'r ffurflen hon ar gael ar www.ewc.wales/ITE-accréditation. Ni fydd CGA yn derbyn hysbysiadau ar unrhyw ffurf arall. Dylid cyflwyno'r ffurflen trwy e-bost at achreduaga@cga.cymru

Ar ôl derbyn hysbysiad, bydd swyddogion CGA a'r cadeirydd pwyllgor a arweiniodd yr asesiad achredu mwyaf diweddar yn adolygu'r newid(iadau) arfaethedig ac ystyried a yw'r rhain yn ffactorau perthnasol i statws achredu'r rhaglen.

Lle bydd swyddogion CGA a/neu'r cadeirydd yn fodlon nad yw'r newidiadau arfaethedig yn ffactorau perthnasol i statws achredu'r rhaglen, anfonir cadarnhad at y bartneriaeth bod modd gwneud y newidiadau heb gynnal adolygiad interim.

Lle bo CGA a/neu'r cadeirydd yn ystyried bod newid o'r fath yn berthnasol i statws achredu'r rhaglen, bydd adolygiad interim yn cael ei drefnu, a bydd y bartneriaeth yn cael ei hysbysu'n ysgrifenedig. Gall adolygiadau interim gynnwys:

- cyflwyno dogfennau sy'n berthnasol i'r newid sylweddol i'r rhaglen i gael cymeradwyaeth y Pwyllgor
- cyfarfod rhwng y Pwyllgor a'r bartneriaeth i archwilio'r newid ymhellach. Bydd y cyfarfod hwn yn fyrrach na chyfarfod adolygu llawn. Os yw CGA hefyd yn barnu bod angen ymweliad safle, bydd yn hysbysu'r bartneriaeth o hynny.

Mae'r trefniadau gwerthuso ac arolygu a fydd yn berthnasol ar gyfer y cyfnod achredu 5 mlynedd wedi'u nodi yn Atodiad 1 i'r ddogfen 'Meini Prawf ar gyfer achredu rhaglenni Addysg Gychwynol Athrawon yng Nghymru'.

11 Rhagor o wybodaeth

Cyswllt: Achredu AGA, CGA
Cyfeiriad: 9^{fed} Llawr, Eastgate House, 35-43 Ffordd Casnewydd, Caerdydd,
CF24 0AB
Ffôn: 029 2046 0099
E-bost: achreduaga@cga.cymru
Gwefan: www.cga.cymru/AchreduAGA

*Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.*